| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **8 TACHWEDD 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – SUBWAY, UNED 25, CANOLFAN DEINIOL, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais i amrywio trwydded eiddo Subway, Uned 25, Canolfan Deiniol, Bangor, LL57 1NW oddi wrth deilydd y drwydded Steven Potts, 24 Segontium Terrace, Caernarfon LL55 2PH.

Cyflwynir y cais am ymestyniad ar yr oriau gweithgareddau trwyddedig safonol o ddarparu lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta oddi ar yr eiddo, a miwsig wedi ei recordio.

Argymhellir oriau gweithgaredd trwyddedig fel a ganlyn –

| | **TRWYDDED GYFREDOL** | **TRWYDDED ARFAETHEDIG** |
|---|---|---|
| Dyddiau | **Oriau darparu lluniaeth hwyr** | **Oriau darparu lluniaeth hwyr** |
| **Sul- Iau** | 23:00 – 02.30 | 23:00 – 03:00 |
| **Gwen - Sad** | 23:00 - 02:30 | 23:00 - 03:30 |
| | **Oriau miwsig wedi ei recordio** | **Oriau miwsig wedi ei recordio** |
| **Llun - Sad** | 07:45 – 02:30 | 07:00 – 03:00 |
| **Sul** | 10:00 - 02:30 | 10:00 – 03:00 |
| | **0riau agor a chau** | **0riau agor a chau** |
| **Llun - Iau** | 07:45 – 02:30 | 07:00 – 03:00 |
| **Gwen - Sad** | 07:45 – 02:30 | 07:00 – 03:30 |
| **Sul** | 10:00 – 02:30 | 07:00 – 03:00 |

**Noder** ar ôl 23:00 gwerthir lluniaeth i'w fwyta oddi ar yr eiddo yn unig.

## YMGYNGHORIADAU

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn –

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Cyngor Dinas Bangor | e bost - gwrthwynebiad |
| Heddlu Gogledd Cymru | e bost - amodau , dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr - dim gwrthwynebiad |

## CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD

### Cyngor Dinas Bangor

Derbyniwyd e bost gan Glerc y Cyngor yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn a niwsans cyhoeddus. Nodwyd fod yr oriau arfaethedig yn mynd i arwain at gynnydd mewn trosedd ac anrhefn, yn ogystal â chynnydd mewn niwsans sŵn a sbwriel ar y stryd.

### Heddlu Gogledd Cymru

Nid yw'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais am ymestyniad oriau. Nodir fod yr Heddlu yn gofyn am gynnwys amodau ar y drwydded parthed TCC a Goruchwylwyr Drysau.
Gweler manylion llawn y gwrthwynebiadau ynghlwm a'r adroddiad.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.